Engage
Bringing people
and art together

# Cadeirydd Ymddiriedolwyr Engage

**Mae Engage, y Gymdeithas Genedlaethol er Addysg Orielau, yn dymuno penodi cadeirydd newydd i'w hymddiriedolwyr i ddilyn Shân Maclennan a adawodd ei swydd ar ôl gwasanaethu fel Cadeirydd ers 2018.**

Mae Engage yn ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyflogaeth, ac ym mhob agwedd ar eu rhaglenni a'u gweithrediadau. Cysylltwch â info@engage.org os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol.

---

**Engage**
Engage, y Gymdeithas Addysg Orielau Genedlaethol, yw'r corff arweiniol ar gyfer ymgysylltu â'r celfyddydau gweledol, gan gynrychioli gweithwyr addysg proffesiynol yn y celfyddydau gweledol drwy'r DU ac mewn dros 20 o wledydd ar draws y byd.

Mae Engage yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Mae'n Sefydliad Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr, ac yn derbyn cyllid gan Creative Scotland, Cyngor Celfyddydau Cymru a nifer o ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Mae hwn yn gyfnod allweddol i Engage wrth i ni osod cyfeiriad strategol newydd, ar ôl ailstrwythuro'r sefydliad er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd yn y staff craidd i ymateb i'r amgylchedd sy'n newid yn gyflym i'n haelodau, yn ogystal â sefydlogrwydd ariannol. Rydym ni'n chwilio am gadeirydd fydd yn sicrhau y caiff cynllun strategol newydd ei wireddu fydd yn cyd-fynd â 'Lets Create' Arts Council England.

Bydd y Cadeirydd yn gweithredu fel llysgennad ar ran Engage, gan ddatblygu perthnasoedd gyda rhanddeiliaid allweddol, darparu arweinyddiaeth i Engage a'r Bwrdd; goruchwylio strategaeth y dyfodol gan sicrhau'r effaith gorau i aelodau a'r sector, a bydd yn gweithredu o fewn ein hamcanion elusennol. Bydd y Cadeirydd yn cefnogi Engage i ddatblygu strategaeth codi arian i greu ffrydiau refeniw newydd er mwyn bod yn llai dibynnol ar y cymorth a gaiff ar hyn o bryd gan Arts Council England, Creative Scotland, Cyngor Celfyddydau Cymru ac ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Bydd gan y Cadeirydd brofiad fel ymddiriedolwr elusen, gweithio mewn sefydliadau bach, bydd yn meddu ar hygrededd ymhlith pobl sy'n gwneud penderfyniadau ac yn dod â rhwydweithiau o gysylltiadau i Engage.

**Rôl y Cadeirydd**

Bydd y Cadeirydd newydd yn ymuno â bwrdd ymroddedig o ymddiriedolwyr sy'n gweithio i gefnogi'r Cyfarwyddwr, tîm y staff ac aelodau wrth ddatblygu'r sefydliad. Gweler **Atodiad 1** am ragor o wybodaeth am swydd a chyfrifoldebau'r bwrdd.

**Rôl y Cadeirydd yw:**

- Arwain bwrdd yr ymddiriedolwyr wrth osod cyfeiriad strategol Engage o fewn ei amcanion elusennol a sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran llywodraethu Engage

- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr a'r Bwrdd ehangach i ddatblygu a chyflawni cyfeiriad strategol a nodau'r Ymddiriedolaeth a'i chynllun gweithredu

- Gweithredu fel llysgennad a llefarydd ar ran Engage a chynorthwyo i ddatblygu perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol

- Cryfhau'r berthynas rhwng ymddiriedolwyr a staff

- Tra bo'n dal i fod yn Sefydliad Portffolio Cenedlaethol Arts Council England sicrhau bod gweledigaeth Engage yn gyson ag egwyddorion buddsoddi Let's Create

- Sicrhau bod gan Engage strategaeth codi arian gweithredol a chynlluniau effeithiol i gynyddu ffioedd aelodaeth a ffrydiau incwm newydd

- Gweithredu fel rheolwr llinell a chefnogi'r Cyfarwyddwr sydd â'r cyfrifoldeb i reoli materion Engage o ddydd i ddydd, a chynnal adolygiadau rheolaidd o berfformiad ac arfarniad blynyddol i sicrhau bod y Cyfarwyddwr yn cyflawni'r cyfrifoldebau priodol

**Llywodraethu Da**

Mae Cadeirydd Engage yn hyrwyddo llywodraethu da drwy sicrhau bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn perfformio ei brif dasgau'n effeithiol sef:

- Sicrhau bod trefniadau ariannol, gweinyddol a chyfreithiol priodol ar waith
- Gwneud sylwadau/cymeradwyo materion polisi, cynllun tair blynedd Engage, a chynnwys yr adroddiad blynyddol
- Sicrhau bod bwrdd yr ymddiriedolwyr yn cyflawni ei gylch gwaith a'i gyfrifoldebau'n effeithiol
- Sicrhau bod Engage yn parhau i arloesi, gwthio ffiniau a herio'r status quo

Dyletswyddau / Cyfrifoldebau eraill

- Cynrychioli'r Elusen gyda'r Cyfarwyddwr yn ei chysylltiadau â rhanddeiliaid allweddol
- Cadeirio cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

- Chwarae rhan weithredol yn penodi Ymddiriedolwyr i sicrhau'r cydbwysedd sgiliau a phrofiad angenrheidiol i'r Ymddiriedolwyr allu gweithredu'n effeithiol ac adlewyrchu'r Mwyafrif Byd-eang
- Mynychu cyfarfodydd o is-bwyllgorau'r bwrdd fel bo'r gofyn e.e. y Pwyllgor Enwebiadau
- Rhoi cyfeiriad i lunio polisïau'r Bwrdd
- Sicrhau bod penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd bwrdd yn cael eu gweithredu
- Mynychu cyfarfodydd allanol achlysurol ar gais y Cyfarwyddwr
- Mynychu'r gynhadledd flynyddol a digwyddiadau eraill fel bo'n briodol
- Gweithredu fel llefarydd ar ran Engage fel bo'n briodol
- Sicrhau bod y broses benderfynu'n amhleidiol ac yn wrthrychol
- Cysylltu â'r Cyfarwyddwr i gadw trosolwg o faterion y sefydliad a sicrhau cefnogaeth fel bo'n briodol
- Eistedd ar baneli penodi a disgyblu
- Cysylltu â'r Cyfarwyddwr i ddatblygu'r Bwrdd
- Hwyluso newid; ymdrin ag unrhyw wrthdaro o fewn y Bwrdd ac o fewn y sefydliad, gan gysylltu â'r Cyfarwyddwr i gyflawni hyn.

---

**Manyleb yr Unigolyn**

Rydym yn chwilio am rywun ag angerdd dros y celfyddydau gweledol ac addysg.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol y nodweddion canlynol:

Profiad
- Profiad o arwain, yn cynnwys rheoli llinell uwch swyddog
- Profiad o weithio'n gydweithredol
- Profiad o fod yn ymddiriedolwr elusen
- Profiad o weithio gyda sefydliadau bach
- Presenoldeb sylweddol a statws a rhwydweithiau personol fydd yn cyfoethogi safle Engage
- Hygrededd ymhlith penderfynwyr lefel uchel a'r sawl sydd â dylanwad yn y celfyddydau gweledol

Sgiliau a gwybodaeth
- Gwybodaeth a dealltwriaeth glir o faterion sy'n effeithio ar sefydliadau celfyddydau ac yn benodol y celfyddydau gweledol a threftadaeth ac addysg
- Dealltwriaeth glir a phrofiad o lywodraethu elusen
- Dealltwriaeth ac ymrwymiad i'r angen i hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol a chynhwysiant wrth arwain a chyflawni gwaith Engage
- Sgiliau cyfathrebu a chadeirio da
- Dealltwriaeth gadarn o reoli ariannol
- Gwerthfawrogiad o'r angen i Engage amrywio ei incwm a pharodrwydd i gefnogi strategaeth codi arian y sefydliad
- Amser i ymrwymo i'r swydd a'r sefydliad, o ran cyfarfodydd mewnol, a gweithredu fel llysgennad ac eiriolwr

- Deall ac ymrwymo i hyrwyddo nodau ac amcanion Engage
- Gallu gweithredu fel awdurdod, eiriolwr ac arweinydd yn y sector diwylliannol a chelfyddydau gweledol gyda hanes rhagorol o lywodraethu
- Sgiliau personol a chyfathrebu effeithiol, ynghyd â gallu bod yn wrthrychol, gwrando, ysbrydoli a chymell

Yn debyg i holl ymddiriedolwyr Engage, bydd disgwyl i'r Cadeirydd fod ag:

- Ymrwymiad i Engage a'i waith
- Parodrwydd i ymrwymo amser ac arbenigedd
- Profiad o ddatblygu gweledigaeth strategol
- Barn dda, annibynnol
- Y gallu i feddwl yn greadigol a rhannu syniadau
- Parodrwydd i fynegi barn
- Deall a derbyn dyletswyddau, cyfrifoldebau ac ymrwymiadau cyfreithiol swydd ymddiriedolwr
- Gwybodaeth ac ymrwymiad i lywodraethu da yn y sector elusennau
- Y gallu i barchu cyfrinachedd
- Y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm
- Parodrwydd i weithredu fel llysgennad i Engage
- Ymrwymiad i saith egwyddor bywyd cyhoeddus Pwyllgor Nolan: anhunanoldeb, unplygrwydd, gwrthrychedd, atebolrwydd, tryloywder, gonestrwydd ac arweinyddiaeth
- Ymrwymiad i Amrywiaeth a Chynhwysiant a Gwrth-hiliaeth

---

**Tymor y Penodiad**
Penodir Ymddiriedolwyr Engage am gyfnod o dair blynedd. Gallant wasanaethu am uchafswm o ddau dymor.

Yn nodweddiadol, yr ymrwymiad amser yw 2 neu 3 diwrnod y mis

Swydd wirfoddol yw hon ac nid oes cydnabyddiaeth. Gellid cynnig taliad am golli incwm gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Gellir talu costau teithio, a lle bo angen, llety ac unrhyw hyfforddiant a chefnogaeth sydd eu hangen ar gyfer y rôl.

**Ymgeisio**
I ymgeisio, anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol sy'n ateb manyleb yr unigolyn i executiveassistant@engage.org erbyn dydd Llun 13 Medi, 10 am.

I drafod y cyfle ymhellach, cysylltwch â Jane Sillis, Cyfarwyddwr, jane.sillis@engage.org.

Byddai'r Cadeirydd sy'n gadael, Shân Maclennan hefyd yn hapus i sgwrsio gyda darpar ymgeiswyr. Cysylltwch â Jane Sillis i ofyn am gyflwyniad.

Caiff ymgeiswyr ar y rhestr fer eu gwahodd i gyfarfod â chynrychiolwyr y Bwrdd ar amser sy'n gyfleus i bawb.

**Addasiadau rhesymol**
Os hoffech sgwrs gyfrinachol am unrhyw addasiadau rhesymol yn ystod y broses, nodwch hyn yn y llythyr neu ebost eglurhaol.

---

**Atodiad 1**
**Rolau a Chyfrifoldebau Bwrdd Engage**
Rôl Bwrdd Engage yw:

- Sicrhau bod Engage yn gweithredu o fewn gofynion cyfreithiol ac ariannol cwmni a sefydliad elusennol
- Bod yn gyfrifol am lywodraethu cyffredinol a chyfeiriad strategol Engage
- Pennu polisi
- Cytuno ar y gyllideb flynyddol a phenderfynu ar unrhyw faterion pwysig yn ymwneud ag adnoddau
- Cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol
- Penodi uwch aelodau o staff
- Gwerthuso uwch aelodau o staff
- Monitro perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau a gytunwyd
- Cynrychioli a hyrwyddo Engage yn allanol
- Cynorthwyo â chodi arian yn y sectorau cyhoeddus a phreifat
- Cadw at y Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu (dogfennau llywodraethu rheoleiddiol Engage).

Mae'r bwrdd yn cynnwys aelodau â chyfrifoldebau a swyddi arbennig. Y rolau allweddol yw'r Cadeirydd, Is-gadeiryddion a Thrysorydd.

**Disgrifiad swydd Ymddiriedolwr**
Mae dyletswyddau statudol pob ymddiriedolwr Engage fel a ganlyn:

- Sicrhau bod Engage yn cydymffurfio â'i ddogfen lywodraethu, cyfraith elusennau, cyfraith cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill
- Sicrhau bod Engage yn dilyn ei amcanion fel y'i diffinnir yn ei dogfen lywodraethu
- Sicrhau bod Engage yn defnyddio ei adnoddau i hyrwyddo ei amcanion yn unig
- Cyfrannu'n weithredol at swyddogaeth y Bwrdd drwy roi cyfeiriad strategol cadarn i'r sefydliad, gosod polisi cyffredinol, diffinio nodau a gosod targedau a gwerthuso perfformiad yn erbyn targedau a gytunwyd
- Diogelu enw da a gwerthoedd Engage
- Sicrhau gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon i Engage
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol Engage
- Diogelu a rheoli eiddo Engage a sicrhau y caiff ei gyllid ei fuddsoddi'n briodol
- Penodi a monitro perfformiad y Cyfarwyddwr

Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol uchod, dylai holl aelodau'r Bwrdd ddefnyddio unrhyw sgiliau, gwybodaeth neu brofiad penodol sydd ganddynt i helpu'r Bwrdd i wneud penderfyniadau cadarn. Gallai hyn gynnwys:

- Craffu papurau'r bwrdd
- Arwain trafodaethau sy'n effeithio ar Engage a'r sector
- Canolbwyntio ar faterion allweddol
- Darparu arweiniad ar fentrau newydd
- Materion eraill ym maes arbenigedd yr ymddiriedolwr.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith ewch i www.engage.org.

---

Cyllidir Engage gan:

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

CREATIVE SCOTLAND ALBA | CHRUTHACHAIL

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government